LANAnC25

Sychu côt ci yn barod i gyflawni’r steil â'r caboliad gofynnol

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â sychu côt a chroen ci yn barod i gyflawni'r steil â'r caboliad gofynnol gan ddefnyddio'r offer, y cyfarpar â'r cynnyrch gofynnol.

Mae'n cynnwys technegau trafod addas a diogel, nodi mathau o gotiau ac adnabod arwyddion o annormaleddau.

Eich cyfrifoldeb chi yw monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun, y ci a phawb sydd yn cael eu heffeithio gan eich gwaith.

Bydd angen i chi fod yn ymwybodol o'ch cyfyngiadau eich hun a chadarnhau eich bod yn bodloni'r cyfrifoldebau cyfreithiol perthnasol ar gyfer darparu dyletswydd gofal yn unol â deddfwriaeth berthnasol iechyd a lles anifeiliaid.

Mae'r safon hon ar gyfer unrhyw un sydd yn sychu cotiau cŵn yn barod i gyflawni'r steil â'r caboliad gofynnol.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. gweithio'n broffesiynol ac yn foesegol ac o fewn terfynau eich awdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'ch profiad
2. gwneud y gweithgaredd yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithle, polisïau sefydliadol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol
3. gwneud eich gwaith yn unol â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer cysylltiedig a pholisïau sefydliadol
4. gwneud eich gwaith yn unol â deddfwriaeth berthnasol iechyd a lles anifeiliaid a deddfwriaeth yn ymwneud ag anifeiliaid, codau ymarfer cysylltiedig, polisïau sefydliadol â'r Ddeddf Llawfeddygon Milfeddygol
5. cynnal hylendid a bioddiogelwch yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithle, ymarfer sefydliadol â'r ddeddfwriaeth berthnasol
6. sicrhau bod yr ardal ar gyfer sychu côt ci yn ddiogel, yn gadarn, yn lân ac yn barod i'w defnyddio
7. dewis, paratoi, defnyddio a chynnal a chadw'r offer â'r cyfarpar yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, canllawiau'r cynhyrchydd a pholisïau sefydliadol
8. dewis, gwisgo a chynnal a chadw dillad a chyfarpar diogelu personol (PPE) addas
9. arsylwi ac adnabod ymddygiad y ci a'i gofnodi, fel y bo angen
10. parhau i gyfathrebu gyda chydweithwyr a phawb sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo, a chael cyngor proffesiynol lle bo angen
11. trosglwyddo cŵn i'r ardal sychu a'u sicrhau mewn ffordd sydd yn lleihau straen ac yn cynnal iechyd, lles a diogelwch pawb sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo
12. sychu côt y ci gan ddefnyddio cyfarpar sychu ac offer llaw sydd yn addas ar gyfer y ci, math a chyflwr ei gôt â'r steil y mae angen ei gyflawni
13. sefydlu'r tymheredd â'r cyflymder sychu cywir a monitro cyflwr côt a chroen y ci yn ystod y broses sychu er mwyn sicrhau nad yw'n gorgynhesu
14. monitro'r ci wrth ei sychu er mwyn gwybod pan fydd y tymheredd, y cyflymder neu'r dechneg sychu yn achosi trallod i'r ci a chymryd y camau gofynnol
15. brwsio'r gôt wrth ei sychu er mwyn cael caboliad gofynnol y steil

yr ydych yn ceisio ei gyflawni

16. edrych ar y gôt i gadarnhau ei bod yn gwbl sych ac yn rhydd rhag clymau a drysni
17. gwybod pan fydd arsylwi'r ci yn datgelu pla posibl neu gyflwr anarferol ac adrodd am hyn wrth y person perthnasol
18. trosglwyddo'r ci i'r ardal gywir ar gyfer y weithdrefn nesaf a chadarnau ei fod yn ddiogel ac wedi ei ddal yn gadarn
19. glanhau, sterileiddio a storio'r offer â'r cyfarpar a ddefnyddiwyd, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, canllawiau'r cynhyrchydd a pholisïau eich sefydliad ac adrodd am unrhyw namau wrth y person perthnasol
20. cwblhau cofnodion fel sydd yn ofynnol gan y ddeddfwriaeth berthnasol a pholisi sefydliadol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. eich cyfrifoldebau proffesiynol fel ysgrafellwr cŵn a therfynau eich awdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'ch profiad
2. pwysigrwydd cwblhau'r gweithgaredd yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithle, polisïau sefydliadol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol
3. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, yr asesiad risg, codau ymarfer cysylltiedig, polisïau sefydliadol
4. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth berthnasol iechyd a lles anifeiliaid a deddfwriaeth yn ymwneud ag anifeiliaid, codau ymarfer cysylltiedig, polisïau sefydliadol â'r Ddeddf Llawfeddygon Milfeddygol
5. pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo, a sut dylid gwneud hyn er mwyn sicrhau bod gofynion y ci yn cael eu bodloni
6. pwysigrwydd cynnal hylendid a bioddiogelwch â'r dulliau ar gyfer cyflawni hyn
7. y mathau o offer a chyfarpar sydd yn ofynnol ar gyfer sychu côt ci a sut i ddewis, paratoi, defnyddio a chynnal y rhain, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, canllawiau'r cynhyrchydd a pholisïau eich sefydliad
8. pwysigrwydd gwneud gwaith fel y cytunwyd gan y cleient
9. sut i gynnal asesiad gweledol o iaith corff y ci cyn ei drafod ac adrodd am unrhyw broblemau wrth y person perthnasol
10. sut i fynd at gŵn, eu trafod a'u hatal mewn ffordd sydd yn cynnal lles anifeiliaid, sydd yn osgoi ymddygiad sydd yn achosi pryder o ran lles ac yn cynnal iechyd a diogelwch
11. y dulliau diogel o drosglwyddo cŵn i'r ardal sychu
12. mathau a nodweddion cotiau'r cŵn yr ydych yn gweithio gyda nhw
13. sut mae math a chyflwr y gôt â'r croen yn effeithio ar y technegau sychu â'r cyfarpar y gellir eu defnyddio
14. sut mae'r steil i'w gyflawni yn effeithio ar y technegau sychu â'r cyfarpar y gellir eu defnyddio
15. y mathau gwahanol o gyfarpar sychu â'r technegau sydd ar gael, eu dibenion a pha fathau o gŵn a chotiau y maent yn fwyaf addas ar eu cyfer er mwyn cyflawni'r caboliad gofynnol
16. tymheredd a chyflymder sychu cywir y cyfarpar sychu, sut i

addasu'r cyfarpar a pheryglon posibl gorgynhesu'r ci a'i groen

17. risg mathau gwahanol o gyfarpar a thechnegau sychu i'r ci a sut i fonitro'r ci yn ystod y broses hon
18. arwyddion trallod mewn cŵn â'r camau y dylid eu cymryd pan fydd y rhain yn cael eu harsylwi
19. sut i wybod pryd bydd cotiau yn gwbl sych a chanlyniadau posibl peidio â sychu ci yn iawn
20. beth yw straen gwres a llosgiadau brwsh, eu harwyddion a'u hachosion a sut i'w hatal rhag digwydd
21. sut i ddarparu llety addas rhwng y cyfnodau ysgrafellu
22. sut i wirio, glanhau, sterileiddio a storio'r offer â'r cyfarpar, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, canllawiau'r cynhyrchydd a pholisi eich sefydliad
23. y cofnodion y mae angen eu cadw mewn perthynas ag ysgrafellu cŵn a phwysigrwydd cwblhau'r rhain yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a pholisi sefydliadol

Cwmpas/Ystod

Sychu'r mathau canlynol o gotiau i gyflawni'r steil â'r caboliad gofynnol

1. gwlân
2. weiar
3. sidan
4. dwbl – hir a byr
5. llyfn

Defnyddio'r cyfarpar sychu canlynol i sychu côt y ci:

1. cwpwrdd
2. sychwr cyflym
3. sychwr chwythu

Sychu côt ci i gyflawni'r steiliau canlynol:

1. wedi ei docio
2. wedi ei dorri â siswrn
3. wedi ei rannu
4. naturiol

Cynnal yr arsylwadau canlynol o'r ci:

1. traed, ewinedd a phadiau
2. cyflwr y clustiau
3. ceg, dannedd a deintgig
4. croen a chôt
5. parasitiaid mewnol ac allanol
6. llygaid
7. ardal yr organau cenhedlu â'r ardal dethol
8. chwarennau rhefrol

Geirfa

Deddfwriaeth gyfredol lles anifeiliaid:

- Cymru a Lloegr, Deddf Lles Anifeiliaid
- Yr Alban, Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Gogledd Iwerddon, Deddf Lles Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon)
- Deddf Llawfeddygon Milfeddygol

Gallai Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) a dillad gynnwys:

- menig
- ffedog

Datblygwyd gan	Lantra
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Chwefror 2020
Indicative Review Date	Chwefror 2025
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Lantra
RCU gwreiddiol	LANAC28
Galwedigaethau perthnasol	Ysgrafellu cŵn
Cyfres/Set	Gofal a Lles Anifeiliaid
Geiriau Allweddol	ci; côt; steil; sychu